



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021

Trefniadau ar gyfer rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a'i Brotocolau Dewisol pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau

Mehfin 2021

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion a gafwyd i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar Gynllun Hawliau Plant Drafft 2021.

Mae adran 2 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cynllun Hawliau Plant sy'n gosod y trefniadau y maent wedi'u gwneud at ddiben sicrhau y rhoddir sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn a'i Brothocolau Dewisol.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am yr adroddiad hwn i:  
Yr Is-adran Plant a Theuluoedd,  
Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Threchu Tlodi,  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 1285

e-bost: [hawliauplant@llyw.cymru](mailto:hawliauplant@llyw.cymru)

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.wales.gov.uk/consultations](http://www.wales.gov.uk/consultations)

## Dogfennau cysylltiedig

- Cynllun Hawliau Plant 2014<sup>1</sup>;
- Ymgynghoriad Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021<sup>2</sup>;
- Ymgynghoriad plant a phobl ifanc Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021<sup>3</sup>;
- Adborth o weithdai plant a phobl ifanc - Adroddiad Re:Cognition.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> [Cynllun Hawliau Plant 2014](#)

<sup>2</sup> [Ymgynghoriad Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021](#)

<sup>3</sup> [Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021](#)

<sup>4</sup> [Adborth o weithdai plant a phobl ifanc - Adroddiad Re:Cognition](#)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Y broses ymgynghori .....	5
3. Trosolwg o'r ymatebion .....	6
4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad – fersiwn oedolion .....	7-18
5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: fersiwn plant a phobl ifanc.....	19-24
6. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad – gweithdai plant a phobl ifanc.....	25
7. Ymateb Llywodraeth Cymru.....	26
8. Atodiad A .....	27
9. Atodiad B .....	28-42

## 1. Cyflwyniad

Yn yr adroddiad hwn, crynhoir yr ymatebion i'r ymgynghoriad "Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021" (y Cynllun).

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (y Mesur) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn a'r Protocolau Dewisol wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisïau.

Yn adran 2 o'r Mesur, nodir bod yn rhaid i Weinidogion wneud Cynllun sy'n gosod y trefniadau y maent wedi eu gwneud at ddiben sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon.

Cafodd y Cynllun presennol ei gyhoeddi yn 2014. Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn am safbwyntiau ynghylch ail-wneud y Cynllun ar gyfer 2021.

Mae'r ddogfen hon sy'n crynhoi'r ymatebion wedi'i rhannu'n dair adran:

- Yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Hawliau Plant drafft,
- Yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar fersiwn plant a phobl ifanc y Cynllun;
- Yr ymatebion o'r gweithdai i blant a phobl ifanc.

Nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys pob sylw ond mae'n ceisio tynnu sylw at themâu a materion cyffredin.

Hoffai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a roddodd o'u hamser i'n helpu i fwrw'r maen i'r wal o ran yr agenda hawliau plant yng Nghymru.

## 2. Y broses ymgynghori

### Cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus

Mae'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, wrth lunio unrhyw Gynllun, newydd neu ddiwygiedig wneud y canlynol:

- Cynnwys plant a phobl ifanc;
- Cynnwys Comisiynydd Plant Cymru;
- Cynnwys unrhyw bobl neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol,
- Ystyried unrhyw awgrymiadau neu argymhellion a wneir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar ôl i'r Adroddiad Gwladwriaeth sy'n Barti gael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU;
- Ystyried unrhyw adroddiadau, awgrymiadau, argymhellion cyffredinol neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Wrth ddatblygu'r Cynllun drafft ar gyfer 2021, gwnaeth y Gweinidogion sicrhau bod y canlynol yn cael ei ystyried:

- Barn Comisiynydd Plant Cymru;
- Barn y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant;
- Barn plant a phobl ifanc
- Argymhellion o adroddiad *Hawliau Plant yng Nghymru*<sup>5</sup> y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg;
- Barn ar adroddiad ar Gydymffurfiaeth 2018 - 2020<sup>6</sup>;
- Adborth ar gynnydd tuag at adroddiad Sylwadau Terfynol 2016 y Cenhedloedd Unedig.

### Y broses ymgynghori

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal rhwng 17 Rhagfyr 2020 a 26 Mawrth 2021.

Daeth 34 o ymatebion i law (24 o ymatebion i'r ymgynghoriad a 10 o ymatebion i fersiwn plant a phobl ifanc yr ymgynghoriad).

Gwnaethom hefyd gomisiynu adroddiad gan Re:Cognition a wnaeth ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc yn rhithwir<sup>7</sup>. Crynhoir safbwyntiau 84 o blant a phobl ifanc o weithdai wedi'u hwyluso yn yr adroddiad hwn.

Cynhaliwyd bord gron gyda rhanddeiliaid hawliau plant er mwyn trafod yr ymgynghoriad ym mis Ionawr 2021.

<sup>5</sup> [Argymhellion o adroddiad Hawliau Plant yng Nghymru y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)

<sup>6</sup> [Adroddiad ar Gydymffurfiaeth 2018-2020](#)

<sup>7</sup> Nid oedd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb oherwydd y cyfyngiadau iechyd y cyhoedd a roddwyd ar waith yn sgil pandemig COVID-19.

### 3. Trosolwg o'r ymatebion

Cafwyd 24 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad i oedolion. Roedd dau ymatebydd am aros yn ddiennw. Cafwyd 10 o ymatebion ysgrifenedig i fersiwn plant a phobl ifanc yr ymgynghoriad. Roedd un ymatebydd am aros yn ddiennw.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Cynhaliodd Re:Cognition weithdai gydag 84 o blant a phobl ifanc a gweithiodd gyda 23 o sefydliadau i ddarparu un adroddiad ymateb. Hoffem ddiolch yn arbennig i Wasanaeth Ieuenctid Tor-faen, Race Council Cymru, fforymau a Chynghorau Ieuenctid Gwent, Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam, Hawliau Plant Sir Gâr, grŵp pobl ifanc anabl, gofalywyr ifanc o nifer o ardaloedd awdurdod lleol, grwpiau ieuenctid LGBTQ+, a phrentisiaid ifanc Gwent a wnaeth helpu i drefnu'r gweithdai hyn.

Rhoddyd cryn dipyn o wybodaeth am y Cynllun drafft a'r trefniadau newydd arfaethedig. Hefyd gwnaed sylwadau am yr agenda hawliau plant yng Nghymru.

Hoffai Llywodraeth Cymru gydnabod yr holl gymorth a gafodd ei gynnig gan randdeiliaid i weithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu'r trefniadau a restrir yn y Cynllun drafft, a diolch amdano.

Ceir crynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a gododd yn y tair set o ymatebion isod:

Roedd y canlynol i'w weld yn amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad:

- Roedd cefnogaeth gyffredinol i lunio Cynllun drafft yn seiliedig ar ganlyniadau, er y byddai'r rhanddeiliaid yn hoffi gweld mwy o fanylion am y ffordd y caiff y canlyniadau hyn eu monitro;
- Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r trefniadau newydd arfaethedig, gan gynnwys cefnogaeth benodol i hyfforddi Gweinidogion, y strategaeth codi ymwybyddiaeth a'r llawlyfr ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai'r rhanddeiliaid yn hoffi gweld mwy o fanylion am bob un o'r rhain;
- Galwyd am i'r Cynllun ddarparu data a fyddai'n benodol i Gymru ac wedi'u dadgyfuno ar blant a phobl ifanc;
- Galwodd plant a phobl ifanc am fwy o bwyslais ar hawliau yn y cwricwlwm a gwell cyhoedduswydd iddynt.

Hefyd, nododd nifer o randdeiliaid a phartneriaid yn y sector y canlynol:

- roeddent yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu nifer o'r trefniadau a restrir yn yr ymgynghoriad;
- roeddent am weld hawliau plant ar eu newydd wedd a oedd yn anelu'n uwch na'r safon sylw dyledus.

#### 4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad – fersiwn oedolion

Mae'r holl ymatebion wedi'u dyfynnu yn yr iaith wreiddiol.

**Cwestiwn 1: A ydych o'r farn bod y trefniadau a nodir yn y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig hwn yn ddigonol er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau?**

**Ydw Dywedwch pam wrthym:**

**Nac ydw Sut y gellid atgyfnerthu'r trefniadau hyn, yn eich barn chi?**

Roedd 11 o'r ymatebwyr (46%) o'r farn bod y trefniadau yn y Cynllun drafft yn ddigonol i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn, a nodwyd bod Cymru eisoes yn arwain y blaen o ran cefnogi hawliau plant.

Roedd cefnogaeth arbennig i'r canlynol:

- hyfforddi Gweinidogion sy'n eu galluogi i bwysu a mesur y Confensiwn fel rhan o'r broses sylw dyledus,
- y llawlyfr arfaethedig i swyddogion
- strategaeth codi ymwybyddiaeth.
- strategaeth gyfranogi,
- y strategaeth dystiolaeth;
- y broses gwyno.

Nid oedd 10 o'r ymatebwyr (42%) o'r farn bod y trefniadau yng Nghynllun drafft 2021 yn mynd yn ddigon pell. Nid oeddent o'r farn bod y Cynllun drafft yn ddigon manwl mewn perthynas â rhoi sylw dyledus.

Awgrymodd pum ymatebydd nad yw'r Cynllun yn mynd yn ddigon pell mewn perthynas â galluogi'r Confensiwn i ddod yn gyfraith gwlad, ac awgrymwyd y dylid dilyn esiampl yr Alban a'i ymgorffori'n llawn. Roedd un ymatebydd o blaid gweld Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ei gryfhau drwy ei gwneud hi'n haws cael cyfiawnder, ac awgrymwyd y dylid cyflwyno dull canolog, tryloyw a chenedlaethol o weithredu, monitro a chofnodi cynnydd, a sicrhau y rhoddir yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol ac argymhellion cyrff cytuniad ar waith.

Ni wnaeth tri ymatebydd (12%) ateb y cwestiwn hwn.

Gwnaed nifer o awgrymiadau penodol i wella'r Cynllun terfynol ac maent wedi cael eu cynnwys yn y tabl isod:

<b>Y themâu a ddaeth i'r amlwg</b>
<b>Rôl y Gangen Plant/adnodd mewnol</b>
Rhagor o fanylion am rôl y Gangen Plant
Ymrwymiad i dîm canolog o arbenigwyr a gefnogir yn dda a all gydgyssylltu pob mater sy'n ymwneud â rhoi'r Confensiwn ar waith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru
Disgrifiad o'r strwythurau sydd ar waith i ymgysylltu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru
Cynnwys prosesau cadarn i ymgorffori hawliau plant yng ngwaith Llywodraeth Cymru
<b>Rôl y Llawlyfr i staff Llywodraeth Cymru</b>
Datganiad yng nghrynodeb yr ymgynghoriad am y bwriad i ymgysylltu'n allanol ar y llawlyfr i swyddogion
Rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad a'r broses ymgysylltu allanol er mwyn llywio cynnwys y llawlyfr
<b>Ymgysylltu â phobl ifanc</b>
Gallai'r adran ar gyfranogi gael ei gwella drwy gydnabod y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn benodol
Gwella'r adran dogfennau hygyrch i blant drwy annog swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio fersiwn hygyrch i blant o bob dogfen lle maent wedi penderfynu y caiff cynigion polisi/deddfwriaeth effaith ar blant a phobl ifanc
Gwella teitl 7.1 drwy newid y geiriad i adlewyrchu'n well yr ymrwymadau a nodir yn yr adran, ac ymrwmo i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a rhanddeiliaid wrth i'r broses gwyno newydd gael ei datblygu. Awgrymir 'Gwneud Cwyn' neu 'Y broses gwyno ar gyfer plant a phobl ifanc'
Tanlinellu pwysigrwydd clywed safbwyntiau plant ar faterion sy'n effeithio arnynt. Bydd angen cynnwys hyn yn y strategaeth gyfranogi, a'r prosesau ymgynghori, yr Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r strategaeth dystiolaeth, yn ogystal â'r weithdrefn gwyno ddiwygiedig a'r Cynllun Gwella Cyllideb
<b>Canlyniadau</b>
Defnyddio hyfforddiant olrhain hawliau dynol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer Gweinidogion Cymru a swyddogion
Dylai'r canlyniadau cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc gyfateb i'r blaenoriaethau cenedlaethol sydd wedi cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru ac eraill, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol i nodi'r materion mwyaf pwysig o ran hawliau plant y mae angen ymdrin â nhw



<b>Hyfforddiant</b>
Galwyd am i hyfforddiant ar y Confensiwn i swyddogion fod yn orfodol, a hefyd iddo gael ei gynnwys fel rhan o raglen sefydlu newydd-ddyfodiaid, gan ddarparu hyfforddiant gloywi pan fo rhywun yn newid ei rôl
Rhagor o fanylion am hyfforddiant Gweinidogol
Amlinellu'n glir fod disgwyl i bob swyddog gael hyfforddiant gorfodol a rheolaidd, sydd o hyd ystyrion, er mwyn ei alluogi i gyflawni dyletswyddau sylw dyledus
Cynnwys ymrwymiad yn y Cynllun terfynol y bydd hyfforddiant yn cael ei nodi yn y llawlyfr i swyddogion
Galw am hyfforddiant AEHP ar wahân a chynnwys yr hyfforddiant AEHP yn y Cynllun terfynol
Gwella'r naratif yn yr adran AEHP er mwyn atgyfnerthu'r berthynas wrth gefnogi'r ddyletswydd sylw dyledus. Awgrymodd yr un ymatebydd y gallai'r adran gael ei gwella ymhellach drwy ategu bod y broses AEHP yn gyson â gofynion y Confensiwn fel y'u nodir yn y Mesurau Gweithredu Cyffredinol (Erthyglau 4, 42 a 44(6))
<b>Rôl AEHP</b>
Ymrwymo i gynnal AEHP ar gyfer pob cynnig polisi/deddfwriaethol sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant, ac i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wneud AEHP yn ofyniad statudol
Cynnwys yr ymrwymiad i gyhoeddi AEHPau yn y Cynllun terfynol
Dylai'r adran AEHP amlinellu'r hyn y dylai oedolion ei wneud mewn perthynas â herio penderfyniad, megis i beidio â chynnal AEHP
<b>Cydymffurfiaeth</b>
Nodi'r trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth ac adrodd arni
Cynnwys manylion am y trywydd a ddilyni'r i atgyfnerthu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyledus i fod yn gymwys wrth ddiwygio'r Cynllun
<b>Defnyddio tystiolaeth/data</b>
Gwella systemau casglu data yn benodol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg data sy'n benodol i Gymru ac sydd wedi'u dadgyfuno
Nodi'n glir a gaiff y strategaeth dystiolaeth ei defnyddio i feithrin gwell dealltwriaeth o faterion gwahaniaethu posibl, yn ogystal â galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn
<b>Codi ymwybyddiaeth/cyfathrebu</b>
Disgrifio rôl y grŵp rhanddeiliaid codi ymwybyddiaeth yn glir

Ymrwymiad i hyrwyddo gwefan Llywodraeth Cymru yn rheolaidd drwy sianelau gwybodaeth a chyfathrebu, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn tynnu sylw at AEHPau
Gallai'r ddyletswydd sylw dyledus i Erthyglau 12 a 13 ystyried plant ag anawsterau cyfathrebu yn fwy. Argymhell y dylai anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu gael eu hystyried yn elfen allweddol yn y Cynllun
<b>Adroddiad Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig</b>
Ystyried cydadroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mis Rhagfyr 2020
Cynnwys strategaethau a chynlluniau gweithredu gwladwriaeth gyfan i ymateb i Sylwadau Terfynol 2016, gan gynnwys sut y caiff yr ymatebion i'r Sylwadau Terfynol eu cyfleu yn y llawlyfr i swyddogion, y strategaeth codi ymwybyddiaeth, y strategaeth dystiolaeth a'r strategaeth gyfranogi
Ystyried Rhestr o Faterion cyn adrodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o fis Chwefror 2021 fel dull o gyfleu sut y caiff y rhestr o faterion ei hymgorffori
Dylai argymhellion, fel y rhai a wnaed yn Sylwadau Terfynol 2016, gael eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau
<b>Cyllideb Llywodraeth Cymru</b>
Rhagor o fanylion am ddyrannu ac olrhain adnoddau, a phrosesau cyllidebol tryloyw a chyfranogol
Cynnwys yr angen i'r broses gyllidebol fod yn dryloyw
<b>Awgrymiadau eraill i wella'r Cynllun</b>
Nodi'n amlwg dirwedd ieithyddol unigryw Cymru a'r angen i sicrhau bod plant yn gallu defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys cyfeirio at y Mesur a'r Safonau a sut maent yn gysylltiedig â hawliau plant yng Nghymru e.e. gohebiaeth, addysg ac ati
Awgrym y dylid gwneud ymrwymiad clir i'r ffordd y caiff anghenion plant a phobl ifanc â chyflyrau iechyd eu deall gan Lywodraeth Cymru, a sut mae'r cyd-destun hwn yn effeithio ar eu hawliau
Cynnwys diwygiadau i gyfreithiau a pholisïau sy'n cefnogi rhoi'r Confensiwn ar waith
Cynnwys proses o ymgysylltu â'r Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant ynghylch a yw cynnig yn cael effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc
<b>Cyffredinol</b>
Cyfeirio'n gyson at blant a phobl ifanc fel nad yw pobl ifanc hŷn yn teimlo eu bod allan ohoni Dylai adran 'Cefndir' y Cynllun terfynol fod yn gliriach o ran y ffordd y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw adroddiadau, awgrymiadau, argymhellion

cyffredinol neu ddogfennau eraill a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys y set ddiwethaf o sylwadau terfynol

Cyfleu'n gliriach sut y caiff ymrwymiad cyhoeddus i hawliau plant ei drosi'n bolisi a phenderfyniad, a sut mae'r Cynllun terfynol yn disgrifio'r ymrwymadau hyn yn ei holl waith a chyhoeddiadau

AEHP o'r Cynllun wedi'i gymeradwyo gan y Senedd

Dyfyniadau o'r ymatebion

“The arrangements Welsh Ministers have made, or propose to make, for the purpose of securing compliance with the duty placed on them appears to demonstrate due regard in relation to the content and plans.”

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn ystyried y sylwadau hyn yn ofalus wrth inni ddatblygu'r trefniadau yn y cynllun drafft.

**Cwestiwn 2: A ydych o'r farn y bydd strwythuro'r Cynllun Hawliau Plant, ar sail Y Ffordd Gywir, yn helpu Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant yn unol â'r Confensiwn, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau?**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr 19 (79%) yn cytuno bod strwythuro'r Cynllun drafft ar sail Y Ffordd Gywir yn helpu Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn. Nid oedd un ymatebydd (4%) o blaid defnyddio'r Ffordd Gywir. Ni wnaeth pedwar ymatebydd (17%) ateb y cwestiwn hwn.

Ymhlith y sylwadau allweddol a oedd o blaid defnyddio'r Ffordd Gywir roedd y canlynol:

- Mae strwythuro'r Cynllun yn seiliedig ar bum egwyddor y Ffordd Gywir yn darparu fframwaith strategol i gynnwys hawliau plant ym mhob agwedd ar y broses o wneud penderfyniadau, llunio polisïau ac ymarfer;
- Bydd yn creu llwybr effeithiol o egwyddor i ymarfer, a bydd yn golygu bod cydgyssylltu a chysondeb ymhlith cyrff/asiantaethau perthnasol
- Mae gweld Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r Ffordd Gywir yn ffurfiol yn dangos arweinyddiaeth go iawn, ac mae'n paratoi'r ffordd i lawer mwy ddilyn trywydd tebyg;
- Mae'n ystyried cyfranogi, darpariaeth a mesurau amddiffyn sy'n rhan annatod o hawliau plant.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am i Lywodraeth Cymru ystyried ffyrdd ehangach o gyflawni egwyddorion Y Ffordd Gywir. Ymhlith y safbwyntiau a rannwyd roedd y canlynol:

- Ei bod hi'n bwysig i'r egwyddorion lywio'r ffordd o weithio yn hytrach na cheisio sicrhau bod gwaith sy'n mynd rhagddo yn gweddu i'r egwyddorion;
- Awgrymwyd bod lle i wella'r trefniadau yn y Cynllun drafft er mwyn helpu Gweinidogion i roi'r egwyddorion ar waith;
- Ei bod hi'n bwysig ystyried sut y gwneir hyn yn weithredol, yn enwedig y bumed egwyddor sy'n ymwneud ag atebolrwydd am fod hawliau plant yn esgor ar rwymedigaethau sy'n mynnu atebolrwydd;
- Nodir bod hawliau plant wrth wraidd y gwaith o lunio polisïau yn Llywodraeth Cymru. Nid yw'n ddigon da gwneud datganiadau cyffredinol fel yr un hwn heb ddangos na phrofi sut mae'n wir. Dylai'r Cynllun fod yn rhan o ymgorffori hawliau yng ngwaith y llywodraeth i gyd, ond byddai'n helpu i nodi beth y mae cael hawliau wrth wraidd y gwaith o lunio polisïau yn ei olygu neu sut mae'n edrych.

Dyfyniadau o'r Ymatebion

"Mae'r egwyddorion a'r camau a amlinellir yn sownd. Rhaid sicrhau bod y rhain yn cael eu gwireddu mewn gwirionedd, gan sicrhau – er enghraifft – bod Gweinidogion yn cael cyfle i glywed lleisiau plant a phobl ifanc ac yn eu cymryd o ddifrif – hefyd yn edrych ar dystiolaeth yn ddiragfarn."

### **Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r canlyniadau a amlinellir yn y ddogfen o dan bob adran?**

**Ydw Dywedwch pam wrthym**

**Nac ydw Sut y gellid atgyfnerthu'r canlyniadau hyn, yn eich barn chi?**

Roedd 15 o'r ymatebwyr (63%) yn cytuno â'r canlyniadau yn y Cynllun drafft, roedd wyth ymatebydd (33%) yn anghytuno â'r canlyniadau, ac ni wnaeth un ymatebydd (4%) ateb y cwestiwn hwn.

Gwnaeth yr ymatebwyr yr awgrymiadau canlynol er mwyn gwella canlyniadau'r Cynllun:

#### Canlyniad 3 (Ymgorffori Hawliau Plant)

- Caiff adnoddau sy'n hysbysu plant a phobl ifanc am gyfrifoldebau gweinidogion, swyddogion Llywodraeth Cymru a dirprwy gyfarwyddwyr drostynt eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un pryd â'r llawlyfr i swyddogion.
- Ceisio gwell esboniad/manyleb gliriach yn y Cynllun ynghylch cynnwys y llawlyfr a'r negeseuon pwysig i staff.
- Dylai'r Cynllun restru elfennau gweithdrefnol allweddol AEHP a chynnwys templed a siartiau llif.
- Gallai'r Cynllun gael ei wella petai'n manylu ar yr hyn y mae "hyfforddiant amlhaenog" yn ei olygu.
- Dylai'r strategaeth ymwybyddiaeth sydd wedi'i diweddarau gynnwys cysylltiadau cryf â'r fframwaith Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar.
- Cynnwys hyfforddiant a nyrsys arbenigol.

#### Canlyniad 4 (Cydraddoldeb a Dim Gwahaniaethu)

- Dylai tystiolaeth glir (Asesiad Effaith Strategaeth Hawliau Plant) fod yn ofynnol ar gyfer pob canlyniad, nid dim ond canlyniad 4, ynghyd â myfyrio ar addasrwydd, effeithiolrwydd a chyflawniadau.
- Mynd i'r afael â lefelau cyllido ledled Cymru er mwyn sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol wedi cael hyfforddiant ar sut i ddelio â thrawma wrth ofyn i blant a phobl ifanc gofio profiadau, oherwydd gall fod yn anodd ailymweld â phrofiadau trawmatig o'r gorffennol.
- Dylai'r Cynllun nodi sut y gallai AEHP gael ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar gydraddoldeb a dim gwahaniaethu. Dylai'r Cynllun gynnwys y camau y bwriedir eu cymryd i feithrin gwell dealltwriaeth o gydraddoldeb a dim gwahaniaethu, a sicrhau y rhoddir mwy o sylw i'r maes hwn.
- Ystyried sut mae gwahanol garfannau o blant yn profi gwahanol fathau a lefelau o wahaniaethu.

#### Canlyniad 5 (Grymuso Plant)

- Diffinio'n glir yr oedran pan fydd plant yn dysgu am eu hawliau.

- Cynnwys plant a phobl ifanc yn y strategaeth codi ymwybyddiaeth a'u cynnwys mewn grŵp rhanddeiliaid, a sicrhau bod grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi'u cynrychioli fel rhanddeiliaid.
- Awgrymu'r camau y gellid eu cynnwys o dan rymuso i wella'r Cynllun drafft.
- Croesawu'r defnydd o'r cwricwlwm yn y strategaeth codi ymwybyddiaeth, ac awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried grwpiau rhanddeiliaid gweithredol, cyfleoedd i gynnwys addysg seiliedig ar hawliau ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, ac addysg mewn lleoliadau ffurfiol a lleoliadau nad ydynt yn ffurfiol wrth ddatblygu'r strategaeth.

### Canlyniad 6 (Cyfranogiad)

- Sut y bydd datblygu strategaeth gyfranogi, a sefydlu grŵp rhanddeiliaid, yn cyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd sylw dyledus, nad yw'n glir yn y Cynllun drafft.
- Cynnwys dull o egluro wrth blant a phobl ifanc pam nad yw polisi wedi'i newid.
- Croesawu gallu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o lunio polisiau.
- Amlinellu rôl y Senedd Ieuenctid.
- Ar gyfer y strategaeth gyfranogi sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi'u hyfforddi'n addas i feddu ar y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan yn y broses o lunio polisiau, a sut y gall plant a phobl ifanc fynd ati i godi pryderon am eu hawliau ac mewn perthynas â chynigion polisi penodol.
- Ystyried llais y disgybl a dulliau seiliedig ar hawliau sydd ar waith ar hyn o bryd.
- Yr un ffocws ar ddysgu nad yw'n gysylltiedig â'r ysgol a darpariaeth ieuenctid er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r rhai sydd y tu allan i addysg ffurfiol.
- Awgrymu proses ymgysylltu wedi'i hwyluso yn hytrach nag ymgynghoriad.
- Awgrymu y dylai'r strategaeth gyfranogi gael ei hymgorffori yn y Gyfarwyddiaeth Addysg fel cynllun peilot cyn ei chyflwyno'n ehangach yn y llywodraeth gyfan er mwyn meithrin cryn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith swyddogion o'r ffordd y mae'n cysylltu â'u gwaith eu hunain.
- Bydd angen sicrhau bod hyfforddiant wrth wraidd y strategaeth gyfranogi, sy'n cynnwys y gwahanol fodolau cyfranogi sy'n galluogi cyfranogi ar wahanol lefelau ac mewn ffyrdd gwahanol yn y broses - ymgysylltu strategol sy'n hysbysu, yn ymgynghori, ac yn cydgysylltu; ymchwil; atebolrwydd a hefyd wrth roi'r polisi ar waith.

### Canlyniad 7 (Atebolrwydd)

- Angen gwybodaeth am y ffordd y bydd y broses gwyno yn gweithio a sut y rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r plant.
- Cafwyd sylw ar y cyfeiriad at rôl Comisiynydd Plant Cymru yn dwyn gweinidogion i gyfrif, a rôl y Senedd yn craffu ar y Cynllun, a sut nad yw'r un o'r rhain yn drefniadau a wneir gan Weinidogion i sicrhau

cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyledus, ac y dylid yn hytrach awgrymu eu defnyddio i sicrhau atebolrwydd a gyflwynir gan Weinidogion.

- Cynnwys amserlen i gyflwyno a nodi adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn.
- Dylai'r Cynllun gynnwys gwybodaeth am sut y gallai'r canlyniad o AEHP gael ei herio.
- Dylai'r Cynllun drafft nodi sut y caiff y datganiadau canlyniadau eu monitro a'u mesur fel rhan o'r adran Atebolrwydd.

#### Dyfyniadau o'r Ymatebion

“Children are the central focus point. They start with a top down approach from ensuring the Welsh Government are trained appropriately and strategies are in place to ensure equality and non-discrimination. They then allow children to have a voice and include them in the participation and accountability. The effectiveness of these outcomes therefore can continue to be monitored by a feedback process making sure children are actually aware of their rights.”

**Cwestiwn 4: Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg.**

Roedd 11 o'r ymatebwyr (46%) yn credu y byddai'r cynigion yn y Cynllun drafft yn cefnogi'r Gymraeg, roedd un ymatebydd (4%) yn credu nad yw'r cynigion yn cefnogi'r Gymraeg ddigon, ac ni wnaeth 12 o ymatebwyr (50%) ateb y cwestiwn hwn.

Roedd y mwyafrif o'r farn y byddai'r Cynllun drafft yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ar yr amod bod yr holl drefniadau a roddid ar waith gan y Cynllun yn ddwyieithog, oherwydd byddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen cyfeirio at y Gymraeg yn fwy amlwg yn y Cynllun terfynol sy'n amlinellu sut mae'r Gymraeg wedi'i hystyried. Dadleuodd ymatebydd arall fod angen i statws yr iaith fod yn eglur yn y Cynllun terfynol

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r Cynllun terfynol ailategu'r ymrwymiad i lunio fersiynau o ddogfennau sy'n addas i blant mewn Cymraeg sy'n addas i blant a fydd yn gwneud y Gymraeg yn fwy hygyrch, ac yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddefnyddio eu dewis iaith.

Dyfyniadau o'r Ymatebion

"If implemented as intended, we would envisage that the proposals will have a positive impact of delivering improved outcomes for children and young people who use, and access information through the Welsh language."



**Cwestiwn 5: Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.**

O'r 24 o ymatebwyr, cynigiodd 11 (46%) faterion cysylltiedig i'w hystyried. Ni wnaeth 13 o ymatebwyr (54%) ateb y cwestiwn hwn.

Rhannodd llawer o'r ymatebwyr syniadau da mewn perthynas â strategaeth gyfranogi a strategaeth codi ymwybyddiaeth.

Cefnogwyd prosesau cwyno, canmol a rhoi adborth ar gyfer plant yn benodol, yn enwedig os yw plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o'u datblygu. Bydd hyn yn darparu ymarfer defnyddiol a allai gael ei roi ar waith gan wasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Croesewid adnoddau fel hyb gwefan â gwybodaeth am hawliau, manylion cyswllt a thafleuni gwybodaeth a allai gael eu defnyddio mewn lleoliadau iechyd, er mwyn helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i feithrin gwybodaeth am hawliau plant, y Bil, a sut i gael gafael ar gymorth os bydd angen herio rhywbeth;
- Angen bod yn fwy eglur am y ffordd y daw cwynion i law a sut y gweithredir arnynt, a sut y gall plant a phobl ifanc ddefnyddio'r broses gwyno;
- A oes proses lle gall plant a phobl ifanc gael cymorth unigol os na fyddant o'r farn bod eu hawliau wedi'u parchu?
- Mae'n bwysig bod y broses gwyno yn edrych ar atebolrwydd yn ehangach, ac nid dim ond cwynion; sut y gall plant a phobl ifanc ofyn am ragor o wybodaeth, cyfrannu at waith y llywodraeth a rhoi adborth? Bydd angen i hyn gysylltu â'r strategaethau cyfranogi a chodi ymwybyddiaeth, yn ogystal â'r broses AEHP. Dylai rôl eiriolaeth o ran helpu plant i godi llais hefyd fod yn rhan amlwg o broses ddiwygiedig. Bydd angen i'r broses ddiwygiedig gael ei datblygu a'i phrofi gyda phlant a phobl ifanc er mwyn mesur pa mor effeithiol a defnyddiol ydyw;
- Awgrymu ehangu cwmpas y broses hon y tu hwnt i gwynion am sut mae Gweinidogion yn cymhwyso'r ddyletswydd a'r AEHP, i bob cwyn am faterion eraill nad ydynt yn ymwneud â'u hawliau o dan y Mesur. Collir cyfle yma i ddarparu gwasanaeth cwynion cynhwysfawr sy'n gwbl hygyrch i blant a phobl ifanc.

Nododd nifer o'r ymatebwyr ei bod hi'n bwysig sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwybodaeth a chymorth o ran eu hawliau, yn enwedig os byddant o'r farn nad yw eu hawliau wedi'u parchu. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Rhoi rhagor o wybodaeth i oedolion a gweithwyr proffesiynol am adnodd Meic;
- Rhaid i'r Cynllun Hawliau Plant gynnwys gwybodaeth am lwybrau cymorth i wasanaethau arbenigol a sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael pan fo ei angen ar blentyn. I gyflawni hyn, bydd angen ariannu gwasanaethau cymorth arbenigol i raddau digonol ac mewn ffordd gynaliadwy.


Nododd dau ymatebydd nad oedd y Cynllun drafft yn cydnabod y mewnbwn sydd ei angen gan rieni/gwarcheidwaid, a'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth rymuso plant a phobl ifanc.

Nododd un sylw fod y Cynllun, wrth ei natur, yn cael ei lywio gan yr angen i gydymffurfio'n benodol, gyda chanlyniadau sy'n disgrifio newidiadau i brosesau sy'n dangos y dilynir y Confensiwn. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun strategol a systemig ar goll. Nid yw'n glir sut y bydd y Cynllun yn cyfrannu at agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc o ran tlodi plant, amddiffyn plant na gofal plant, ac felly yn arwain at well gwasanaethau a chanlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc. Byddai'r Cynllun terfynol yn cael mwy o effaith petai cysylltiadau â'r canlyniadau ehangach hyn sy'n effeithio ar fywydau plant yn amlwg.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at alwadau am i'r Confensiwn gael ei ymgorffori ymhellach o fewn cyfraith Cymru. Roedd nifer o sylwadau ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach:

- Dylid sicrhau bod hyfforddiant ar gael a'i fod yn cael ei ddarparu ar bob lefel er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso, a bod ganddynt yr hyder a'r sgiliau i fynegi barn, a bod oedolion yn cael eu hyfforddi i fod yn hwyluswyr medrus;
- Sut y caiff hawliau ieuchyd plant eu cyflawni mewn perthynas â'r Cynllun arfaethedig?
- Rhaid i ddull Hawliau Plant hefyd gael ei lywio gan drawma a'i arwain gan anghenion;
- Rhaid archwilio pob canlyniad yn fanwl o ran ei ddilysrwydd, tryloywder a chynwysoldeb. Rhaid i'r gwaith o fesur y canlyniadau gynnwys data sy'n edrych ar yr ymatebion er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu byw heb gamdriniaeth a'u bod yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi pan fo angen.

Dyfyniadau o'r Ymatebion



"I welcome the inclusion of a children and young people's version of this consultation."

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: fersiwn plant a phobl ifanc

Cafwyd 10 o ymatebion i'r ymgynghoriad i gyd. Roedd un ymatebydd am aros yn ddienw. Mae'r holl ymatebion wedi'u dyfynnu yn yr iaith wreiddiol.

**Cwestiwn 1: Mae'r Cynllun Hawliau Plant yn amlinellu cynlluniau Gweinidogion Cymru i gefnogi hawliau plant. Oes gen ti unrhyw farn ar y cynllun?**

Rhannodd pob un o'r ymatebwyr (100%) safbwyntiau ychwanegol am y Cynllun drafft.

Roedd wyth ymatebydd (80%) o blaid y Cynllun Hawliau Plant. Roedd pedwar ymatebydd (40%) o'r farn y gallai Hawliau Plant a'r Cynllun gael mwy o gyhoeddusrwydd, ac awgrymodd dau (20%) y dylai rhagor o wybodaeth am y Confensiwn gael ei rhoi mewn ysgolion. Dynododd dau ymatebydd (20%) fod angen rhoi hyfforddiant i Weinidogion, fel bod penderfyniadau yn gallu cael eu gwneud gan gadw plant a phobl ifanc mewn cof.

Gwnaeth yr ymatebwyr yr awgrymiadau canlynol er mwyn gwella'r Cynllun:

- Llunio dogfennau sy'n addas i blant.
- Ei gwneud hi'n haws cwyno/canmol Llywodraeth Cymru.
- Gallai dulliau o hyrwyddo'r Confensiwn gyda phlant a phobl ifanc fod yn fwy diddorol a pherthnasol.

Dyfyniadau o'r Ymatebion

“It shows how Welsh Government will take children’s human rights and views in to consideration”

## Cwestiwn 2: Beth arall ddylai fod yn y Cynllun?

Awgrymodd naw ymatebydd (90%) feysydd ychwanegol y dylai'r Cynllun drafft ymdrin â nhw. Ni wnaeth un ymatebydd (10%) ateb y cwestiwn hwn.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r Cynllun terfynol gael ei hyrwyddo'n ehangach ledled Cymru.

Heriodd un ymatebydd y defnydd o'r gair gorau yn y frawddeg 'Hawliau plant sy'n sail i'n huchelgais bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gwireddu ei botensial.' Roedd o'r farn ei fod yn nawddoglyd.

Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r Cynllun roi mwy o bwyslais ar hyfforddi athrawon, yn ogystal â rhoi gwybodaeth i ysgolion am hawliau.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyledus bob dwy flynedd, yn hytrach na bob dwy flynedd a hanner.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru lunio fersiwn addas i blant o'r adroddiad cydymffurfiaeth.

Gwnaed nifer o awgrymiadau penodol ar gyfer gwella'r Cynllun terfynol, a restrir isod, a dynodir a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr awgrymiadau hyn wrth ddrafftio'r Cynllun terfynol:

<b>Awgrym</b>
Amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau eraill hyrwyddo hawliau plant, neu'n eu cefnogi i wneud hynny
Gwella'r adran cydraddoldeb a dim gwahaniaethu drwy amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â gwahaniaethu, hiliaeth a chydaddoldeb rhywiol, a mynd i'r afael â gwahaniaethu mewn addysg
Gwneud y Cynllun terfynol yn fwy cryno a defnyddio iaith sy'n llai amwys
Egluro bod Gweinidogion Cymru yn gwrando ar blant a phobl ifanc a hefyd yn gweithredu ar yr hyn maent yn ei ddweud
Amlinellu pa hawliau sydd gan blant a phobl ifanc mewn ffordd fwy effeithiol
Gwneud adran pedwar yn llai goddefol
Gwella adran pump er mwyn ei gwneud hi'n glir sut y gall plant a phobl ifanc gael mynediad i Lywodraeth Cymru i'n dwyn i gyfrif

Dyfyniadau o'r Ymatebion

“There is not enough focus given at the moment in the scheme to prevent discrimination amongst young people and more should be done about this.”

### **Cwestiwn 3: Sut allu di chwarae mwy o ran wrth ddylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru?**

Awgrymodd pob un o'r ymatebwyr (100%) sut y gallai plant a phobl ifanc chwarae mwy o ran yn dylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn am ragor o gyfleoedd i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy sianeli gwahanol, fel y cyfryngau cymdeithasol, ymgynghoriadau, a siarad yn uniongyrchol â Gweinidogion. Mae hefyd yn glir o'r ymatebion fod plant a phobl ifanc am chwarae rhan mor gynnar â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau cyn ei bod yn rhy hwyr i wneud gwahaniaeth. Awgrymodd sawl ymatebydd ffyrdd o gyfranogi'n effeithiol.

Ymhlith yr awgrymiadau eraill o ran sut y gall plant a phobl ifanc gael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau roedd y canlynol:

- Defnyddio'r broses gwyno;
- Creu tudalen Fforwm Pobl Ifanc i blant a phobl ifanc leisio pryderon;
- Hyrwyddo ymgyrch 'Gwneud eich Marc'.

Dyfyniadau o'r Ymatebion

“Creating Young People’s Forum Pages that Welsh Government can then encourage young people to raise concerns.”

#### **Cwestiwn 4: Sut gall Gweinidogion Cymru sicrhau bod pawb yn gwybod am hawliau plant ac yn eu cefnogi?**

Awgrymodd pob un o'r ymatebwyr (100%) sut y gall Gweinidogion Cymru sicrhau bod pawb yn gwybod am hawliau plant ac yn eu cefnogi.

Awgrymodd saith ymatebydd (70%) godi ymwybyddiaeth o Hawliau Plant drwy ymgyrch gyfathrebu (y cyfryngau cymdeithasol, teledu, poster, fideos)

Awgrymodd wyth ymatebydd (80%) y dylai Hawliau Plant fod yn orfodol mewn ysgolion a chael eu cyflwyno drwy'r Cwricwlwm a phosteri yn yr ysgol.

Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyno mwy o fentrau a chyfleoedd lle siaredir am hawliau plant, a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dysgu am hawliau plant;
- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth gref bod lleisiau plant a phobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth ym mhob maes polisi sy'n effeithio ar eu bywydau;
- Gwneud gwybodaeth yn hawdd cael gafael arni;
- Bod yn gliriach ynghylch y ffordd y mae'r Confensiwn yn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru;
- Gweinidogion i weithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o hawliau.

Dyfyniadau o'r Ymatebion

“Via Social Media Pages – they currently lack any presence on Social Media platforms aimed at young people, more could be done to raise awareness of rights this way.”

## Cwestiwn 5: Sut hoffet ti roi adborth i Lywodraeth Cymru?

Gwnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr, naw (90%), roi awgrymiadau i Lywodraeth Cymru ar sut yr hoffent ymateb. Ni wnaeth un ymatebydd (10%) ateb y cwestiwn hwn.

Roedd plant a phobl ifanc yn cefnogi dod o hyd i lwybr addas i roi adborth i Lywodraeth Cymru, ac awgrymwyd opsiynau digidol (e.e. anfon fideos, arolygon ar-lein a pholau piniwn drwy'r cyfryngau cymdeithasol oedd yn well gan bobl ifanc, a thrwy e-bost wedi'i greu'n benodol drwy Hwb.)

Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i athrawon, ysgrifennu at blant a phobl ifanc yn uniongyrchol, neu lunio arolwg i blant a phobl ifanc roi eu barn i'r llywodraeth.

Dyfyniadau o'r Ymatebion

“Perhaps an easier way for children to be able to communicate with ministers, embracing creativity through sending videos of children's views or questions?”

## **Cwestiwn 6: Sut allwn ni sicrhau bod Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal?**

Awgrymodd chwe ymatebydd (60%) ffyrdd o sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, ni wnaeth un ymatebydd (10%) wneud unrhyw awgrym, ac ni wnaeth tri ymatebydd (30%) ateb y cwestiwn.

Nododd un ymatebydd y dylai dogfennau gael eu cyhoeddi mewn fformatau hawdd eu deall yn y ddwy iaith.

“Young People felt that Welsh Government are currently doing this as a matter of good practice – but Welsh Government need to understand the wider needs of the community too - making sure the good work continues no matter what government is in office.



## 6. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad – gweithdai plant a phobl ifanc

Ymhlith yr adborth cyffredinol ar y Cynllun drafft fel y'i rhoddwyd gan Re:Cognition roedd y canlynol:

- Ar y cyfan deallwyd pum adran y cynllun yn dda, ac roedd llawer o'r cyfranogwyr yn gallu gweld sut roeddent yn cysylltu'n un.
- Mynegodd y cyfranogwyr bryder am yr hyn a ystyriwyd ganddynt yn wendid o ran lleisiau plant a phobl ifanc yn y cynllun.
- Roedd llawer o'r farn bod y cynllun yn rhy gyffredinol, ac nad oedd digon o fanylion am y ffordd y byddai'n gweithio'n ymarferol, a wnaeth wneud i lawer ohonynt ddefnyddio'r term symboleiddiaeth; fodd bynnag, ni ddatblygodd hyn yn thema fawr.
